Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 20 Mai 2019, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer) Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

14. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Jim Bryan ac Ian Lewney.

15. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Gavin Harris budd personol ac ariannol yn eitem 13.3, Beicio Cymru, gan fod y sefydliad wedi trefnu lle i aros yn ei westy. Datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne fudd personol yn eitem 13.4, cais am gymorth ariannol gan Fenter Iaith Sir Ddinbych, fel aelod o Bwyllgor Gwaith y Fenter ac eitem 22 fel aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych.

16. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

23.04 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
07.05 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
13.05 Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun

17. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Gavin Harris (Dirprwy Faer)	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod Fforwm y Dref yn yr Hen Lys, cyflwyniad tystysgrif Tref sy'n Croesawu Bysiau Moethus yn y Ganolfan Grefft, penwythnos agored yr Hen Lys a'r ffotomarathon, cyfarfod gyda Dafydd Evans yng nghyswllt yr Hen Lys, ffilmio gyda Newyddion S4C ynghylch yr Hen Lys, cyfarfod y Pwyllgor Staffio, Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun a ffilmio ar gyfer fideo Rhuthun 'Book of You'.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru, diwrnod agored yr Hen Lys, cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos a Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod ymgynghori yng Nghanolfan Naylor Leyland ynghylch meddygfa newydd yn Ysbyty Rhuthun, cinio codi arian ar gyfer yr Hen Lys yn y Manorhaus, cyngerdd John's Boys yn Theatr John Ambrose i godi arian i gronfa elusen y Maer, Pwyllgor Apêl yr Urdd Rhuthun a Gŵyl Rhuthun, cyfarfod Pwyllgor Staffio yn neuadd y dref, Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun, arddangosfa cynlluniau arfaethedig Aldi yng Nghanolfan Llanfwrog a chyfarfod gyda Peter Lea, Swyddog Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch problemau parcio yn Haulfryn.
Cyng. Jim Bryan	Cyflwyniad tystysgrif Tref sy'n Croesawu Bysiau Moethus yn y Ganolfan Grefft.
Cyng. Ken Hawkins	Cyflwyniad tystysgrif Tref sy'n Croesawu Bysiau Moethus yn y Ganolfan Grefft, digwyddiad coffa Murray Bragg yn Nantclwyd y Dre, cyngerdd John's Boys yn Theatr John Ambrose i godi arian i gronfa elusen y Maer, Pwyllgor Apêl yr Urdd Rhuthun a Gŵyl Rhuthun a Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun
Cyng. John Wynne Hughes	Trafodaethau gyda'r Aelod Seneddol a'r Aelod Cynulliad lleol ynghylch defnyddio hen safle Ysgol Stryd y Rhos/Pen Barras ar gyfer hyfforddiant yr heddlu, Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun,

	arddangosfa cynlluniau arfaethedig Aldi yng Nghanolfan Llanfwrog a chyfarfod gyda Peter Lea, Swyddog Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch problemau parcio yn Haulfryn.
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras, Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun ac arddangosfa cynlluniau arfaethedig Aldi yng Nghanolfan Llanfwrog.
Cyng. Jabez Oakes	Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Pedair sesiwn Banc Bwyd, cyfarfod y Pwyllgor Staffio, Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun ac arddangosfa cynlluniau arfaethedig Aldi yng Nghanolfan Llanfwrog.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfodydd Pwyllgor Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, ymweliad ag Ysgol Fonedd Rhuthun gyda Chymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, cyfarfod Ymlaen Rhuthun, cyflwyniad tystysgrif Tref sy'n Croesawu Bysiau Moethus yn y Ganolfan Grefft, cinio codi arian ar gyfer yr Hen Lys yn y Manorhaus, penwythnos agored yr Hen Lys, cyngerdd John's Boys yn Theatr John Ambrose i godi arian i gronfa elusen y Maer Pwyllgor Apêl yr Urdd Rhuthun a Gŵyl Rhuthun, cyfarfod Drysau Agored, Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun, arddangosfa cynlluniau arfaethedig Aldi yng Nghanolfan Llanfwrog a chyfarfod gyda Peter Lea, Swyddog Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch problemau parcio yn Haulfryn.
Cyng. Dave Snape	Cyngerdd John's Boys yn Theatr John Ambrose i godi arian i gronfa elusen y Maer Pwyllgor Apêl yr Urdd Rhuthun a Gŵyl Rhuthun a Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Heather Williams	Cyfarfod Fforwm y Dref yn yr Hen Lys, cyflwyniad tystysgrif Tref sy'n Croesawu Bysiau Moethus yn y Ganolfan Grefft, penwythnos agored yr Hen Lys, diwrnod agored Clwb Bowlio Gorphwysfa, Llanfwrog, cyfarfod gweithgor yr Hen Lys, Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun ac arddangosfa cynlluniau arfaethedig Aldi yng Nghanolfan Llanfwrog.
Cyng. Ifan Wyn	Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.
Cyng. Emrys Wynne	Cyflwyniad tystysgrif Tref sy'n Croesawu Bysiau Moethus yn y Ganolfan Grefft a Chyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun.

18. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Cyfeiriodd y Cynghorydd Emrys Wynne at gais cynllunio MacBryde Homes am 69 o dai wrth ymyl Llys Famau, ac y byddai digwyddiad ymgynghori yn cael ei gynnal yn Nhrem y Foel. Cadarnhaoedd bod trigolion yn byw ger cyn safle Ysgol Stryd y Rhos/Ysgol Pen Barras wedi'u hysbysu am ddefnyddio'r safle ar gyfer hyfforddiant gwarchae gan yr heddlu ac na fu ymateb gan yr ysbyty. Nododd aelod bod swyddog Cyngor Sir Ddinbych wedi addo yn ystod cyflwyniad i Gyngor Tref Rhuthun y byddai cynnal a chadw'r tiroedd yn parhau, ond nad oedd y glaswellt wedi'i dorri.

19. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2019 yn gywir.*

20. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

21. COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau bod cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 13 Mai 2019 yn gywir.*

22. COFNODION YR IS-BWYLLGOR STAFFIO

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2019.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2019 a diwygio'r gofynion ac ail-hysbysebu'r swydd.*

23. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2019.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2019.*

24. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2019.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2019.*

25. RHUTHUN DI-BLASTIG

Ystyriodd yr aelodau gynnig i gefnogi'r daith i ennill statws Cymuned Di-blastig, trwy

- ymrwymo i ddeunyddiau amgen di-blastig a mentrau di-blastig
- cefnogi'r ymgyrch morlin di-blastig
- ymgymryd i sicrhau nad yw eitemau plastig un defnydd yn unig yn cael eu defnyddio yn nigwyddiadau a lleoliadau'r Cyngor
- cefnogi'r ymgyrch i annog peidio â defnyddio a lleihau'r defnydd o blastig un tro yn unig o leoliadau manwerthu yn y dref er mwyn cynorthwyo gyda lleihau sbwriel ar y strydoedd.

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig.
PENDERFYNWYD*: bod y Cyngor Tref o blaid y cynnig i gefnogi'r daith i sicrhau statws Cymuned Ddi-blastig i Rhuthun.*

26. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried pum cais am gymorth ariannol:
Gŵyl Rhuthun - £1,000 tuag at gynnal digwyddiadau 2019, Gwirfoddolwyr Digwyddiadau Rhuthun - £600 tuag at adloniant Nos Calan ar Sgwâr Sant Pedr, Beicio Cymru - £500 tuag at ddigwyddiadau Treialon Amser a Ras Ffordd Pencampwriaeth Cymru yn Rhuthun ar benwythnos 1 a 2 Mehefin, Menter Iaith Sir Ddinbych - £959 tuag at ddigwyddiadau i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn Rhuthun a Chynnal - £1,000 tuag at logi bws mini ar gyfer teithiau dydd i oedolion bregus.
Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch y trefniadau iechyd a diogelwch a'r yswiriant ar gyfer yr adloniant arfaethedig nos Calan ar Sgwâr Sant Pedr. O ran cais Cynnal, awgrymodd aelod y byddai digwyddiad penodol i Rhuthun yn fwy tebygol o gael ei gefnogi.
PENDERFYNWYD*: rhoi cymorth ariannol o £1,000 i Ŵyl Rhuthun a £959 i Fenter Iaith Sir Ddinbych a gwrthod y tri chais arall.*

27. AELODAU CYNGOR TREF RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau eu manylion ar y daflen binc a ddosbarthwyd yn y cyfarfod. Cyflwynwyd diweddariadau i'r Clerc.
PENDERFYNWYD*: cadarnhau'r manylion a dosbarthu'r manylion wedi'u diweddaru yn y cyfarfod nesaf.*

28. AELODAETH PWYLLGORAU 2019/20

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried aelodaeth y gwahanol bwyllgorau. Roedd yr aelodau'n hapus i aelodaeth y Pwyllgor Amwynderau a'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu barhau yr un fath, yn ogystal â'r Is-bwyllgor Cymorth Ariannol, Pwyllgor y Gymraeg, yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol a'r Is-bwyllgorau Staffio ac Apêl. Cynigiodd y Cynghorydd Jabez Oakes fod yn aelod o'r Grŵp Archwilio Dogfennau a chadarnhawyd hyn.
PENDERFYNWYD*: nodi aelodaeth y pwyllgorau a dosbarthu'r manylion wedi'u diweddaru yn y cyfarfod nesaf.*

29. CYNRYCHIOLAETH Y CYNGOR TREF AR GYRFF ALLANOL 2019/20

Gofynnwyd i'r aelodau adolygu a diweddaru'r rhestr Cynrychiolaeth y Cyngor Tref ar gyrff allanol. Cynigiodd y Cynghorydd Jabez Oakes for yn gynrychiolydd ar Fanc Bwyd Rhuthun yn lle'r Cynghorydd Gavin Harris, ac ar Siambr Fasnach Rhuthun yn lle'r cyn gynghorydd Rosie Hughes. Gofynnodd y Cynghorydd Menna Jones i'w henw gael ei nodi fel cynrychiolydd Corff Llywodraethu Ysgol Pen Barras ers Tachwedd 2019, yn dilyn diwedd cyfnod y Cynghorydd Robert Owen-Ellis yn y swydd a chysylltu gyda Phwyllgor Ymgynghorol Llys Marchan i ganfod a yw'n parhau i gyfarfod. Penderfynwyd dileu Tîm Tref Rhuthun oddi ar y rhestr, a chynnwys Fforwm Tref Rhuthun fel eitem agenda yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

PENDERFYNWYD*: nodi'r gynrychiolaeth ar gyrff allanol a dosbarthu'r manylion wedi'u diweddaru yn y cyfarfod nesaf.*

30. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Darparodd y Cynghorydd Gavin Harris grynodeb o'r gyllideb a gofynnodd am gymeradwyaeth i fwrw ymlaen i gael tendrau ar gyfer y gwaith adnewyddu. Hysbysodd yr aelodau bod y targed £8,000 ar Crowdfunding wedi'i oresgyn gan anelu am y targed ymestynnol yn awr, gyda'r ymgyrch yn do di ben ar 21 Mai 2019.

PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad a chymeradwyo bwrw ymlaen i wahodd tendrau ar gyfer y gwaith adnewyddu.*

31. MANDAD BANC – HSBC

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau ychwanegol llofnodwr newydd, y Dirprwy Faer, ar y gorchymyn banc yn lle'r Maer wedi ymddeol, y Cynghorydd Ian Lewney.

PENDERFYNWYD: *ychwanegu'r Cyngor Heather Williams, y Dirprwy Faer, fel llofnodwr newydd ar y gorchymyn banc.*

32. ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2019

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn yr adroddiad Archwiliad Mewnol gan JDH Business Solutions ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 ac ystyried yr argymhellion:

1. Y dylai'r Cyngor fod yn ymwybodol y gallai'r archwilydd allanol wneud cais i ddiwygio'r ffurflen flynyddol fel bo'r arian yn y Gronfa Adneuo Sector Cyhoeddus, wedi'i gynnwys yn y blwch 'Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau' ar hyn o bryd, yn cael ei ddileu a'i gynnwys gyda'r asedau sefydlog.
2. Y dylai'r Cyngor adolygu a yw ei yswiriant cywirdeb yn ddigonol, gan nad yw'r yswiriant cywirdeb o £250,000 yn cwmpasu'r balans arian parod uchafswm a ragwelir o tua £277,000 (wedi'i gyfrifo fel y balans ar ddiwedd y flwyddyn a rhan-daliad cyntaf y praesept).

PENDERFYNWYD: *derbyn yr adroddiad Archwiliad Mewnol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019, nodi argymhelliad 1 a gofyn i'r Is-bwyllgor Craffu Ariannol ystyried argymhelliad 2 ynghylch yr yswiriant cywirdeb yn ei gyfarfod nesaf ar 10 Mehefin 2019.*

33. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ebrill 2019.

PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ebrill 2019.*

34. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

100148	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	Ffi adnewyddu diogelu data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth I	£40.00
100149	Cymdeithas Sioe Rhuthun	Cymorth ariannol tuag at sioe 2019	£500.00
100150	Clwb Bowlio Gorphwysfa	Cymorth ariannol tuag at brynu a gosod Pafiliwn Bowlio	£500.00

100151	Cymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch	Cymorth ariannol tuag at drefniadau diogelu arddangos rhodd werthfawr o Briec		£500.00
100152	Formabuild	Gwaith tynnu eitemau allan o'r Hen Lys	*	£367.20
100153	Sgowtiaid Rhuthun	Cyfraniad o Gronfa Elusen y Maer		£200.00
100154	Cybs Rhuthun	Cyfraniad o Gronfa Elusen y Maer		£200.00
100155	Clwb Pel-droed Ieuenctid Rhuthun	Cyfraniad o Gronfa Elusen y Maer		£200.00
100156	Clwb Rygbi Ieuenctid Rhuthun	Cyfraniad o Gronfa Elusen y Maer		£200.00
100158	Clwb Criced Ieuenctid Rhuthun	Cyfraniad o Gronfa Elusen y Maer		£200.00
100160	Theatr John Ambrose	Achos da Dinesydd Da'r Flwyddyn 2019		£100.00
100161	Nyrsys Cymuned Rhuthun	Achos da Grŵp Cymunedol y Flwyddyn 2019		£50.00
100162	1918 Sgwadron Rhuthun ATC	Achos da Grŵp Cymunedol y Flwyddyn 2019		£50.00
100163	Banc Bwyd Rhuthun	Achos da Person Ifanc y Flwyddyn 2019 – Erin Gwyn		£50.00
100164	Ysbyty Cymuned Rhuthun	Achos da Person Ifanc y Flwyddyn 2019 – Ceri Wynne Jones		£50.00
100165	Y Bedol	Hysbyseb Dirprwy Glerc y Dref / Rheolwr Canolbwynt y Dref		£35.00
100166	Fineline	Clipfyrddau	*	£7.66
100167	Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Costau teithio i gyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yng Ngholeg Llandrillo, Llandrillo yn Rhos, 26.04.19		£24.30
100168	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres – Mai 2019	*	£84.00
100169	Clwb Rygbi Rhuthun	Cost baner hysbyseb – tymor 2018/19		£350.00
100170	The Don Photography	Gwasanaeth tynnu lluniau yn y Cyfarfod Blynyddol, 13.05.19		£100.00
100171	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol		£354.12
100172	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd Mai 2019	*	£270.00
100173	JDH Business Service Ltd	Internal Audit fee 2018/19	*	£334.56

35. CYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORI CYN CYFLWYNO CAIS - ALDI

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried bwriad Aldi Stores Ltd i gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio hybrid i adeiladu siop fwyd, unedau cyflogaeth a maes parcio, tirlunio, gwasanaethau a mynediad cysylltiedig ar dir oddi ar yr A525, Lôn Gwernydd, Rhuthun. Canmolodd yr aelodau'r digwyddiad ymgynghori defnyddio iawn, a oedd wedi ymdrin â'r pryderon a godwyd. Gwnaed cais am ramp mynediad i'r safle ger yr ocsiwn da byw ac arosfan bws un ai yn y safle neu ar naill ochr yr A525.

PENDERFYNWYD: *aros am y cais cynllunio llawn a darparu sylwadau maes o law.*

36. NEUADD Y DREF

Hysbyswyd yr aelodau bod trefnwyr y farchnad gyfredol yn Neuadd y Farchnad yn ymddeol ar 30 Mehefin. Bwriedir trefnu cyfarfod nesaf grŵp Neuadd y Dref yn fuan.

PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad.*

37. WALIAU'R CASTELL GER STRYD Y FELIN

Tynnwyd sylw'r aelodau at fater diogelwch lle mae waliau'r castell wedi dymchwel ger Stryd y Felin a Chae Ddôl. Dywedodd y Cynghorwyr bod y wal yn gyfrifoldeb Castell Rhuthun ac

awgrymwyd ymweliad safle ar y cyd rhwng Cynghorwyr Cyngor Tref Rhuthun, Cynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych sy'n cynrychioli ward Rhuthun a swyddogion Cyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *gweithredu yn unol â'r uchod.*

38. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 17 Mehefin 2019 am 7.00pm.*